My Vote My Voice

# Deall democratiaeth a beth mae'n ei olygu i mi

# Cyflwyniad i Bleidleisio

My Vote My Voice

Gwybodaeth

# Beth yw pleidleisio?

- Rydyn ni'n byw mewn democratiaeth. Mae hyn yn golygu ein bod yn dewis pwy sy'n rheoli.

- Rydyn ni'n gwneud hyn drwy bleidleisio.

- Pleidleisio yw eich ffordd chi o ddweud eich dweud o ran pwy sy'n eich cynrychioli.

- Mae pleidleisio’n digwydd yn ystod etholiadau.

- Rydych chi'n pleidleisio dros wleidyddion i gynrychioli eich ardal leol.

- Gallwch bleidleisio mewn Etholiadau Lleol ac Etholiadau Cyffredinol.




My Vote My Voice

Gwybodaeth

# Beth yw pleidiau gwleidyddol?


- Os ydy rhywun eisiau cael eu hethol rydym yn dweud eu bod yn ‘**sefyll mewn etholiad**’.

- Yn aml bydd pobl yn dewis cynrychioli **plaid wleidyddol** pan fyddant yn sefyll mewn etholiad.

- Grŵp o bobl yw plaid wleidyddol sy'n rhannu syniadau tebyg ynglŷn â beth sy'n iawn i'r wlad.

- Y ddwy blaid wleidyddol fwyaf yw'r **Blaid Geidwadol** a'r **Blaid Lafur**.

- Mae gan bob plaid wleidyddol arweinydd ac aelodau.



Gweithgaredd

# Ar hyn o bryd dydy llawer o bobl ag anableddau dysgu ddim yn pleidleisio. Pam rydych chi'n credu bod hyn yn digwydd?

Efallai bydd rhywun yn gofyn i chi roi adborth i'r grŵp.




**Oeddech chi'n gwybod?**

Mae map meddwl yn ffordd wych o gyflwyno eich syniadau.

- Ysgrifennwch y cwestiwn yng nghanol y dudalen. Tynnwch gylch o'i gwmpas.
- Yna ysgrifennwch eich syniadau.
- Defnyddiwch linellau i ddangos sut mae syniadau'n cysylltu â'i gilydd.




© istock

Gweithgaredd

# Ydy hi'n werth pleidleisio?

Fel grŵp, trafodwch p'un ai fod pleidleisio'n bwysig heddiw.



Gweithgaredd


# Dangoswch pam mae eich llais yn cyfrif

Cymerwch ddarn o bapur a gorffen y frawddeg hon…

**Mae Fy Llais yn Cyfrif oherwydd…**

Wedi gorffen? Beth am droi eich darn o bapur yn boster lliwgar? Ychwanegwch luniau, lliw a chelf fel y bydd eich poster yn sefyll allan.

Os nad ydych yn hoffi ysgrifennu neu dynnu lluniau, gallech ddangos i ni pam mae eich llais yn cyfrif drwy lynu lluniau ar y dudalen. Gallwch ddod o hyd i luniau mewn papur newydd neu ar y rhyngrwyd.



My Vote My Voice

Gweithgaredd

# Creu eich pleidleiswyr

Dylai pawb ddychmygu cymeriad newydd sbon. Pwy ydyn nhw? Beth yw eu diddordebau? Beth sy'n eu gwneud yn hapus a beth sy'n eu gwneud yn ddig?

Ydyn nhw'n pleidleisio yn yr etholiad nesaf? Pam? Pam nad ydynt?

Sut fyddan nhw'n pleidleisio? Mewn person,
trwy ddirprwy neu drwy'r post? Pam?

*Efallai bydd rhai pobl eisiau tynnu llun eu cymeriadau.*



My Vote My Voice

Gweithgaredd

# Dileu rhwystrau

**Beth sy'n eich stopio i bleidleisio? Beth am ddileu rhwystrau gyda'n gêm fowlio ddifyr! I gymryd rhan bydd angen pinnau bowlio, pêl fowlio, papur a phinnau ysgrifennu.**



- Dechreuwch y gêm drwy feddwl am y pethau a allai stopio pobl i bleidleisio. Gelwir y rhain yn rhwystrau.

- Torrwch luniau o bapurau newydd, lawrlwythwch a phrintiwch luniau o’r rhyngrwyd, tynnwch lun neu ysgrifennwch eiriau sy'n cynrychioli'r rhwystrau hyn.

- Glynwch bob rhwystr ar bin bowlio.

- Nawr gofynnwch i chi'ch hun sut gellir dymchwel y rhwystrau hyn.

- Ar ôl i chi ateb y cwestiwn hwn, mae'n amser bowlio a dymchwel y rhwystrau hynny!

*Dim pinnau bowlio gennych? Beth am ddefnyddio hen boteli plastig a phêl.*

My Vote My Voice

# Cofiwch gallwch bleidleisio mewn Etholiadau Lleol ac Etholiadau Cyffredinol

My Vote My Voice

# Beth yw etholiad lleol?

Gwybodaeth

- Yn yr etholiadau lleol rydyn ni'n cael pleidleisio dros ein **cynghorwyr lleol**. Mae cynghorwyr lleol yn dod at ei gilydd i greu grŵp o'r enw cyngor.

- Mae cynghorau'n bwysig iawn. Maen nhw'n helpu i redeg gwasanaethau lleol fel ysgolion a chasgliadau biniau.

- Weithiau gallwch bleidleisio i **faer** yn eich etholiad lleol hefyd.



Mae cynghorwyr yn cynrychioli eich barn mewn cyfarfodydd Cyngor.

Mae ASau yn cynrychioli eich barn yn y Senedd. Cewch wybod mwy am hyn yn ddiweddarach.

My Vote My Voice

Gwybodaeth

# Beth yw Etholiad Cyffredinol?

- Mewn **Etholiad Cyffredinol** rydych chi'n pleidleisio i **Aelod Seneddol (AS).**

- Mae **AS** yn berson cyffredin sydd wedi penderfynu eu bod eisiau helpu i redeg y wlad.

- Mae eich AS yn cynrychioli'r man lle rydych yn byw yn y **Senedd**. Y Senedd yw'r man lle mae deddfau'n cael eu gwneud.

## Sut ydych chi'n ennill yr Etholiad Cyffredinol?

- Y blaid wleidyddol sydd a'r nifer fwyaf o ASau yn y wlad sy'n ennill yr etholiad. Maen nhw'n ffurfio **llywodraeth**.

- Mae arweinydd y blaid fuddugol yn dod yn **Brif Weinidog**.

- Weithiau nid oes gan un blaid ddigon o ASau i ffurfio llywodraeth ar eu pen eu hun. Pan fod hyn yn digwydd gall dwy blaid neu fwy uno â'i gilydd i greu **llywodraeth glymblaid**.




My Vote My Voice

# Ffug etholiad

Rhannwch bawb yn **Ymgeiswyr a Phleidleiswyr**.


• Dylai'r **ymgeiswyr** feddwl am dri pheth bydden nhw’n ei wneud pe byddent yn Brif Weinidog.

• Mae'r **ymgeiswyr** yn cyflwyno’u syniadau nôl i'r pleidleiswyr.

• Mae angen i'r **pleidleiswyr** ofyn llawer o gwestiynau fel y gallant benderfynu i bwy ddylent bleidleisio.

• Dylai'r **pleidleiswyr** ysgrifennu pwy maen nhw eisiau i ennill a pham ar ddarn o bapur.

• Dylai’r **pleidleiswyr** fynd â'u papur at flwch sy’n cynrychioli'r blwch pleidleisio. Dylai'r pleidleiswyr hefyd ddangos eu ID, fel y bydd rhaid iddyn nhw ei wneud mewn etholiad go iawn.




My Vote My Voice

# Ymarfer Diwrnod Pleidleisio

Gweithgaredd

**Paratowch ffug orsaf bleidleisio. Bydd angen:**

1. Rhywun yn eistedd y tu ôl i fwrdd yn gwirio enwau, cyfeiriadau ac IDs.
2. Mannau ble gall pobl bleidleisio. Ym mhob gorsaf bleidleisio dylech gael papur pleidleisio ymarfer a phensil. **Lawrlwythwch ein papur pleidleisio ymarfer yma.**
3. Blwch lle gall pobl roi eu papurau pleidleisio.




EIN HAWGRYMIADAU

1. Gallech ofyn i bobl gynnal ffug arolwg barn y tu allan wrth i bobl adael y gorsafoedd pleidleisio

2.Gwnewch yn siŵr bod pobl yn gwybod beth i'w wneud os oes ganddyn nhw unrhyw anghenion mynediad.

**Yna….**

1. Gofynnwch i bobl giwio y tu allan i ddrws ffug orsaf bleidleisio.
2. Bob tro bydd bwth pleidleisio'n wag gwahoddwch rywun newydd i mewn i bleidleisio.
3. Gwiriwch eu ID, enw a chyfeiriad cyn gadael iddyn nhw bleidleisio
4. Cyfeiriwch nhw at fwth pleidleisio.
5. Gwneud yn siŵr eu bod yn rhoi eu papur pleidleisio ymarfer yn y blwch pan fyddan nhw wedi gorffen.

Gweithgaredd

# Creu maniffesto

Beth fyddech chi'n ei wneud pe byddech chi'n rheoli? Dewiswch **dri pheth** yr hoffech eu newid pe byddech yn Brif Weinidog. Byddwch yn barod i roi adborth nôl i'r grŵp.



# Sut mae Llywodraeth y DU yn gweithio?

Gwybodaeth

# Sut mae Llywodraeth y DU yn gweithio?

- **Gwaith y Prif Weinidog** a'r llywodraeth yw cynnig syniadau a chynlluniau ynglŷn â sut i redeg y wlad. Enw'r syniadau a'r cynlluniau hyn yw **polisïau**.

- Mae angen **llawer o bolisïau** ar y llywodraeth **i redeg y wlad**. Er mwyn gallu rheoli hyn yn hwylus, mae'r llywodraeth yn cael ei rhannu yn wahanol swyddfeydd, o'r enw adrannau. Er enghraifft, mae gennym Adran ar gyfer Iechyd a Nawdd Cymdeithasol ac Adran ar gyfer Trafnidiaeth.

- Mae'r Prif Weinidog yn dewis **gweinidogion cabinet** i redeg pob un o'r adrannau hyn. Ar y cyd â'r Prif Weinidog, maen nhw'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â sut i redeg y wlad.

- Mae llawer o bobl eraill nad ydyn nhw'n wleidyddion yn gweithio yn yr adrannau llywodraeth hyn. **Gelwir y rhain yn weision sifil**. Nid yw gweision sifil yn cael eu hethol. Gall unrhyw un wneud cais am swydd fel gwas sifil.

- Mae Llywodraeth y DU yn gwneud yr holl benderfyniadau ynglŷn â Lloegr a rhai o'r penderfyniadau ynglŷn â Chymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae gan **Gymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon eu llywodraethau eu hun hefyd.**

Gwybodaeth

## Pwy sy'n rheoli ar hyn o bryd?

- Y Blaid Geidwadol sy'n rheoli. **Rishi Sunak** yw'r Prif Weinidog ac arweinydd y Blaid Geidwadol.

- Y blaid gafodd y nifer ail uchaf o ASau yn yr etholiad diwethaf yw'r Blaid Lafur. **Keir Starmer yw arweinydd y Blaid Lafur.**







My Vote My Voice

Gweithgaredd

# Cynlluniwch eich cabinet eich hun

Ydych chi'n cofio beth mae gweinidogion cabinet yn ei wneud?

Pwy fyddech chi’n eu rhoi yn eich cabinet chi? Dewiswch arwr, person enwog neu wleidydd lleol i lenwi bob un o'r rolau cabinet allweddol hyn. Gwnewch yn siŵr bod gennych resymau da dros eu dewis ar gyfer eich cabinet.

1. **Prif Weinidog** – dyma yw arweinydd y DU
2. **Canghellor** – dyma yw'r prif berson arian yn y DU
3. **Ysgrifennydd Iechyd** – mae'r person hwn yn gofalu am ysbytai a gofal cymdeithasol
4. **Ysgrifennydd Tramor** – mae'r person hwn yn penderfynu sut mae Prydain yn gweithio gyda gwledydd eraill
5. **Ysgrifennydd Cartref** – mae'r person hwn yn gyfrifol am bethau fel mewnfudo a phlismona

My Vote My Voice

Gweithgaredd

## Diffiniadau

Printiwch ein dalen ddiffiniadau

Torrwch allan y geiriau a'u diffiniadau a'u cymysgu i gyd. Ydych chi'n cofio pa ddiffiniad sy'n cyd-fynd â beth?



My Vote My Voice

Gweithgaredd

## Gwyliwch am y wleidyddiaeth!

Dylai rhywun godi ar eu traed a thrafod beth maen nhw’n wneud mewn diwrnod cyffredin.

Dylai pawb arall godi eu llaw, baner, bys sbwng neu rywbeth tebyg, bob tro mae rhywbeth yn digwydd y mae gwleidyddiaeth yn effeithio arno.



# Gwneud newid

Gwybodaeth

## Nid pleidleisio yw'r unig ffordd y gallwch newid pethau



- Gallwch ysgrifennu at eich AS i sôn am y materion rydych chi'n frwd drostynt.
- Gallwch wirfoddoli i elusennau ac ymgyrchoedd.
- Gallwch ymuno â grŵp gwleidyddol lleol.
- Gallwch ddechrau deiseb. Llythyr yw deiseb sy'n dweud beth ydych chi eisiau ei newid. Gallwch ofyn i bobl eraill ei llofnodi.

**Awgrym da - oeddech chi'n gwybod, os rhoddwch eich deiseb ar y wefan hon, efallai bydd y llywodraeth yn ymateb hyd yn oed!**

Gweithgaredd

# Ysgrifennwch lythyr at eich AS

**Beth am ysgrifennu at eich AS i'w annog i eiriol dros bleidleisio hygyrch.**

- Oeddech chi'n gwybod y gallwch ysgrifennu neu anfon e-bost at eich AS?

- Beth am ysgrifennu llythyr neu e-bost yn gofyn iddyn nhw gefnogi Fy Mhleidlais Fy Llais?

- Gallwch ddweud wrthyn nhw pam mae pleidleisio'n bwysig i chi a gofyn iddyn nhw gofrestru i fod yn Hyrwyddwr Pleidleisio Hygyrch.

- Gallwch ffeindio allan pwy yw eich AS a chael eu manylion cyswllt ar-lein. **Chwiliwch am eich AS yma.**

- Ddim yn siŵr beth i'w ysgrifennu? **Defnyddiwch ein llythyr templed.**



My Vote My Voice

Diolch i Photosymbols!

*Diolch arbennig i'r Enterprise*